Cynllun Pensiwn Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi

Barnett Waddingham LLP

Ebrill 2024

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	3
2.	Dewis buddsoddiadau	3
3.	Amcanion buddsoddi	3
4.	Y mathau o fuddsoddiadau i'w dal 4	
5.	Y cydbwysedd rhwng gwahanol fathau o fuddsoddiadau	4
6.	Risgiau	4
7.	Enillion disgwyliedig o fuddsoddiadau	6
8.	Gwireddu buddsoddiadau	6
9.	Ystyriaethau ariannol perthnasol, materion anariannol, arfer hawliau pleidleisio a gweithgareddau ymgysylltu, a'r polisi ynghylch trefniadau â rheolwyr buddsoddi	6
10.	Cytundeb	6

Atodiad 1 Nodyn ar bolisi buddsoddi'r Cynllun ym mis Ebrill 2024 mewn perthynas â'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi cyfredol 7

Atodiad 2 Meincnodau ac amcanion 8

1. Cyflwyniad

1.1. Dyma'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi a baratowyd gan Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Eglwys Bresbyteraidd Cymru (y "Cynllun"). Mae'r datganiad hwn yn nodi'r egwyddorion sy'n llywodraethu'r penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau.

1.2. Wrth baratoi'r datganiad hwn, mae'r Ymddiriedolwyr wedi ymgynghori â Bwrdd Eiddo Eglwys Methodistiaid Calfinaidd Cymru Neu Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ("yr Eglwys"), y Prif Gyflogwr, ac wedi cael cyngor gan Barnett Waddingham LLP, ymgynghorydd buddsoddi'r Ymddiriedolwyr. Mae Barnett Waddingham wedi'i awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

1.3. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu'r datganiad hwn o leiaf bob tair blynedd neu os bydd newid sylweddol yn unrhyw un o'r meysydd a gwmpesir gan y datganiad.

1.4. Cwblhaodd yr Ymddiriedolwyr drafodiad yswiriant blwydd-dal crynswth â Just Retirement (yr "Yswiriwr") yn y contract dyddiedig 8 Ebrill 2024 er mwyn sicrhau'r buddiannau o dan y Cynllun.

2. Dewis buddsoddiadau

2.1. Polisi'r Ymddiriedolwyr yw pennu'r targed buddsoddi cyffredinol ac yna fonitro perfformiad y Cynllun yn erbyn y targed hwnnw. Wrth wneud hynny, mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried cyngor eu cynghorwyr proffesiynol, yr ystyriant eu bod yn gymwysedig ac yn brofiadol ar gyfer y rôl hon.

2.2. Yn weithredol o 8 Ebrill 2024, ymrwymodd yr Ymddiriedolwyr i gontract yswiriant blwydd-dal crynswth â'r Yswiriwr, y disgwylir iddo ddarparu buddiannau sy'n cyfateb i bob buddiant diffiniedig sy'n ddyledus i aelodau'r Cynllun.

2.3. Mae'r Yswiriwr wedi'i awdurdodi gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus ac wedi'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus.

2.4. Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn dal unrhyw fuddsoddiadau eraill heblaw am arian parod yng nghyfrif banc y Cynllun a daliad yng Nghronfa Hylifedd Sterling LGIM. Mae'r gwaith o reoli'r asedau a ddelir yng Nghronfa Hylifedd Sterling LGIM o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i LGIM. Mae'r rheolwr buddsoddi wedi'i awdurdodi ac wedi'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, a'r rheolwr buddsoddi sy'n gyfrifol am reoli'r Gronfa.

2.5. Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu priodoldeb strategaeth fuddsoddi'r cynllun yn barhaus ond byddai'n ystyried ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw newidiadau perthnasol yn y dyfodol yn cael eu gwneud cyn bod polisi Just Insurance yn cael ei aseinio i aelodau unigol o bosibl a bod y Cynllun wedyn yn cael ei ddirwyn i ben.

2.6. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn ymgynghori â'r Eglwys cyn diwygio'r strategaeth fuddsoddi.

3. Amcanion buddsoddi

3.1. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi trafod amcanion buddsoddi allweddol yn sgil dadansoddiad o broffil rhwymedigaethau'r Cynllun yn ogystal â'r cyfyngiadau ar yr Ymddiriedolwyr wrth gyflawni'r amcanion hyn. O ganlyniad, prif amcanion buddsoddi'r Ymddiriedolwyr yw:

- dal asedau sy'n golygu ei bod yn debygol iawn y caiff y buddiannau y mae gan aelodau o dan Weithred a Rheolau'r Ymddiriedolaeth yr hawl iddynt eu talu'n llawn wrth iddynt fod yn ddyledus;
- buddsoddi mewn asedau â hylifedd priodol er mwyn bodloni rhwymedigaethau posibl sy'n weddill nas cwmpesir gan y polisi blwydd-dal crynswth; a

- lleihau'r risg y bydd yr asedau yn methu â bodloni'r rhwymedigaethau yn yr hirdymor.

3.2. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r gydberthynas sy'n bodoli rhwng y portffolio buddsoddi penodol a ddelir a lefel ariannu rhwymedigaethau'r Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi gwneud buddsoddiadau y disgwylir iddynt gyflawni amcanion y Cynllun cystal ag sydd yn bosibl.

4. Y mathau o fuddsoddiadau i'w dal

4.1. Caniateir i'r Cynllun fuddsoddi mewn ystod eang o asedau gan gynnwys ecwitïau, bondiau, arian parod, dewisiadau amgen yn lle eiddo a pholisïau blwydd-dal. Mae strategaeth fuddsoddi bresennol y Cynllun yn golygu dal y rhan fwyaf o asedau'r Cynllun mewn contract yswiriant blwydd-dal crynswth, gyda daliad arian parod i fodloni gofynion llif arian parod yn barhaus.

4.2. O ystyried strategaeth fuddsoddi'r Cynllun, ni ddisgwylir y bydd y Cynllun yn dal unrhyw fuddsoddiadau sy'n ymwneud â'r Eglwys. Fodd bynnag, bydd archwilwyr y Cynllun yn gwirio hyn bob blwyddyn fel arfer.

5. Y cydbwysedd rhwng gwahanol fathau o fuddsoddiadau

5.1. Mae'r Cynllun yn buddsoddi mewn asedau y disgwylir iddynt gyflawni amcanion y Cynllun.

5.2. Mae'r Cynllun yn dal polisi blwydd-dal crynswth y disgwylir iddo gynhyrchu llifau arian parod sy'n cyfateb yn union i'r buddiannau y mae gan bob un o aelodau'r Cynllun yr hawl iddynt. Delir gweddill asedau'r Cynllun yng nghyfrif banc yr Ymddiriedolwyr a Chronfa Hylifedd Sterling LGIM.

6. Risgiau

6.1. Mae'r gwahanol fathau o risg buddsoddi a all effeithio ar rwymedigaethau'r Cynllun wedi'u cwmpasu o dan yr yswiriant blwydd-dal crynswth a brynwyd â'r Yswiriwr. Felly, mae'r mwyafrif helaeth o'r risgiau a nodir isod wedi'u cwmpasu gan y polisi yswiriant, ac felly bernir na fyddant yn cael fawr ddim effaith ar allu'r Cynllun i fodloni rhwymedigaethau'r Cynllun wrth iddynt fod yn ddyledus. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried y risgiau canlynol ar gyfer y Cynllun o ran ei bolisi buddsoddi a rhwymedigaethau'r Cynllun:

Risg o gymharu â'r rhwymedigaethau	Mae'r Ymddiriedolwyr yn nodi, drwy sicrhau buddiannau'r Cynllun ag yswiriwr, fod y risg na chaiff buddiannau eu darparu bellach yn isel iawn.
Risg o ran y cyfamod	Mae'r Cynllun yn llai dibynnol ar gryfder cyfamod yr Eglwys am fod buddiannau'r Cynllun wedi'u sicrhau'n gyfan gwbl gan yswiriwr. Wrth droi'r polisi prynu yn bolisi allbrynu â'r Yswiriwr, bydd y Cynllun yn dibynnu ar yr Eglwys i wneud iawn am unrhyw ddiffyg dros swm bach yr asedau a ddelir y tu allan i'r contract yswiriant, pe bai diffyg yn codi.
Risg gwrth-barti yswiriwr	Mae'r risg y bydd yr yswiriwr yn diffygdalu wedi cael ei rheoli drwy ddewis yswiriwr ac iddo enw da a reoleiddir yn y DU gyda chymorth posibl y gyfundrefn digolledi yswiriant sydd ar waith pe bai yswiriwr yn methu.
Risg o ran rheolwr buddsoddi	Mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro perfformiad yr asedau gweddilliol (h.y. y rhai a ddelir mewn arian parod a Chronfa Hylifedd Sterling LGIM y tu allan i'r polisi blwydd-dal crynswth) yn ôl yr angen. Mae gan yr Ymddiriedolwyr gytundeb ysgrifenedig â'r rheolwr buddsoddi, sy'n cynnwys nifer o gyfyngiadau ar y ffordd y gall y rheolwr buddsoddi weithredu.

Risg o ran llywodraethu	Disgwylir i reolwr buddsoddi'r gronfa hylifedd warchod yr asedau a ddelir yn dda ac ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol mewn perthynas â'r asedau hynny. Mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro hyn a byddant yn adrodd ar yr arferion yn eu Datganiad Gweithredu blynyddol lle y bo modd.
Risg o ran ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu/yr Hinsawdd	Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried y risgiau ariannol hirdymor i'r Cynllun a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (yn ogystal â risg o ran yr hinsawdd). Er bod yr Ymddiriedolwyr o'r farn y gallai'r ffactorau hyn fod yn berthnasol yn ariannol, yr Yswiriwr fydd yn bennaf cyfrifol am reoli'r risgiau hyn dros oes y contract.
Risg o ran crynodiad	Disgwylir i'r rheolwr buddsoddi a'r Yswiriwr reoli portffolios amrywiol yn gyffredinol ac i wasgaru asedau ar draws nifer o gyfranddaliadau a gwarannau unigol.
Risg o ran hylifedd	Mae'r Cynllun yn buddsoddi mewn asedau, gan gynnwys arian parod, fel y byddd dyraniad digonol i fuddsoddiadau hylif i fodloni gofynion llif arian y Cynllun sy'n weddill nad ydynt wedi'u cwmpasu gan y contract yswiriant blwydd-dal crynswth a threuliau dirwyn i ben. Mae gweinyddwyr y Cynllun yn monitro lefel yr arian parod sydd ar gael yng nghyfrif banc y Cynllun.
Risg o ran arian cyfred	Mae rhwymedigaethau'r Cynllun a'r incwm a gynhyrchir gan y contract blwydd-dal crynswth mewn arian cyfred Sterling.
Colli buddsoddiad	Os bydd yr Yswiriwr yn mynd yn ansolfent, gallai'r Cynllun ddioddef colledion ar y contract, ond byddai'n dal yn atebol am dalu buddiannau'r aelodau. Caiff y risg hon ei lliniaru gan y gyfundrefn reoleiddio a'r gofynion cyfalaf sydd ar waith i yswirwyr yn y DU. Caiff y risg y bydd y rheolwr buddsoddi yn colli buddsoddiad ei hasesu gan yr Ymddiriedolwyr. Mae hyn yn cynnwys colledion y tu hwnt i'r rhai a achosir gan symudiadau yn y farchnad (e.e. risg o ddiffygdalu, gwallau gweithredol neu dwyll).

7. Enillion disgwyliedig o fuddsoddiadau

7.1. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dewis buddsoddi'r mwyafrif helaeth o asedau mewn polisi blwydd-dal crynswth er mwyn cyfateb taliadau buddiannau'r Cynllun a amcanestynnir i incwm o'r polisi. Mae'r asedau sy'n weddill yn cael eu dal o gofio natur y rhwymedigaethau ychwanegol posibl a all fod yn ddyledus ar y Cynllun nas cwmpesir gan y polisi, ynghyd â threuliau parhaus.

7.2. Nid yw'r Ymddiriedolwyr wedi pennu enillion disgwyliedig o'r polisi blwydd-dal crynswth, o ystyried mai ei brif bwrpas yw bod yn gontract yswiriant yn hytrach na buddsoddiad sy'n chwilio am enillion.

8. Gwireddu buddsoddiadau

8.1. Nid oes modd gwireddu'r polisi blwydd-dal â'r Yswiriwr yn hawdd ac nid yw'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl y bydd angen ildio na gwireddu'r contract o ystyried ei natur a'i bwrpas. Caiff yr incwm o'r polisi blwydd-dal crynswth ei ddefnyddio i dalu buddiannau a gwmpesir gan y polisi.

8.2. Mae asedau'r Cynllun sy'n weddill yn cael eu dal mewn asedau y gellir eu gwireddu ar fyr rybudd.

9. Ystyriaethau ariannol perthnasol, materion anariannol, arfer hawliau pleidleisio a gweithgareddau ymgysylltu, a'r polisi ynghylch trefniadau â rheolwyr buddsoddi

9.1. Gan fod y mwyafrif o asedau'r Cynllun yn cael ei ddal mewn polisi yswiriant, yr Yswiriwr sy'n bennaf cyfrifol am reoli'r materion hyn. Adlewyrchir hyn ym mholisïau'r Ymddiriedolwyr eu hunain, fel y'u crynhowyd yn Atodiad 2.

10. Cytundeb

10.1. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno ar y datganiad hwn, sy'n disodli unrhyw ddatganiadau blaenorol. Bydd copïau o'r datganiad hwn ac unrhyw ddiwygiadau dilynol ar gael i'r Eglwys, y rheolwr buddsoddi, yr actiwari ac archwilydd y Cynllun ar gais.

Llofnodwyd:.....Dyddiad:.....

Ar ran Cynllun Pensiwn Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Atodiad 1 Nodyn ar bolisi buddsoddi'r Cynllun ym mis Ebrill 2024 mewn perthynas â'r Datganiad cyfredol o Egwyddorion Buddsoddi

1. Dewis buddsoddiadau

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penodi'r rheolwr buddsoddi / yswiriwr canlynol i ymgymryd â gwaith buddsoddi'r Cynllun o ddydd i ddydd:

- Legal and General Investment Management ("LGIM")
- Polisi blwydd-dal â Just Retirement

Mae gan yr Ymddiriedolwyr gontract AVC â Prudential i dderbyn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVC) gan yr aelodau. Caiff y trefniant ei adolygu o bryd i'w gilydd.

Mae'r rheolwyr buddsoddi a'r darparwyr AVC wedi'u hawdurdodi ac wedi'u rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penodi Barnett Waddingham LLP i'w cynghori ar faterion buddsoddi.

2. Y cydbwysedd rhwng gwahanol fathau o fuddsoddiad

Mae'r rhan fwyaf o asedau'r Cynllun wedi'i dal mewn polisi blwydd-dal crynswth. Delir yr asedau sy'n weddill yng nghyfrif banc y Cynllun ac yng Nghronfa Hylifedd Sterling LGIM, o gofio natur y rhwymedigaethau ychwanegol posibl a all fod yn ddyledus ar y Cynllun nas cwmpesir gan y polisi.

3. Buddsoddiadau a dadfuddsoddiadau

Disgwylir i ofynion llif arian parod y Cynllun gael eu bodloni gan ddaliadau arian parod y Cynllun sy'n weddill a'r polisi blwydd-dal.

Atodiad 2 Meincnodau ac amcanion

Crynhoir meincnodau ac amcanion ar gyfer pob un o'r rheolwyr cronfa isod:

Cronfa	Meincnod	Amcan	Tâl blynyddol
Cronfa Hylifedd Sterling LGIM	Cyfartaledd Mynegai Dros Nos Sterling	Perfformiad yn unol â'r meincnod	0.125% y.f. o'r £5 miliwn gyntaf, a 0.100% y.f. o'r £5 miliwn nesaf, a 0.075% y.f. o'r £20 miliwn nesaf, a 0.050% y.f. o'r balans uwchlaw £30 miliwn

Darparwr AVC	Cronfa	Meincnod	Amcan	Tâl blynyddol
Prudential	Cronfa Adnau	Cyfradd sylfaenol Banc Lloegr	Y nod yw diogelu gwerthoedd cyfalaf – gwarentir na fydd cynilion aelodau yn lleihau mewn gwerth. Yn ennill cyfradd amrywiadwy o log misol yn unol â chyfradd sylfaenol Banc Lloegr	Nid yw'n glir – caiff ei gynnwys wrth gyfrifo llog